**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Amgylched a Chyllid a gynhaliwyd Nos Lun, Medi 14eg 2015 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Colin Hughes (cadeirydd), Roy Tickle (is gadeirydd), Raymond Bartley, Geraint Williams, Brian Davies, Gaynor Wood, Catherine Jones a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Colin L Hughes.

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **Datgan Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Geraint Williams - unrhyw faterion oedd yn berthnasol a Chyngor Sir Ddinbych.
(2) Cyng Raymond Bartley - unrhyw faterion oedd yn berthnasol a Chyngor Sir Ddinbych.

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Orffennaf 20fed 2015.**

3. **Materion yn codi:** Nid oedd unrhyw fater yn codi.

## A. <u>Amgylchedd</u>

1. **Hen siop Mortimer, Pwll y Grawys:** Cyfeiriodd clerc y dref at yr ymateb a dderbyniwyd oddi wrth CSDd oedd yn dweud, tra bod yr adeilad a'i ffenestri yn fordiog a'r tir heb unrhyw wastraff, nid oedd modd ei ddisgrifio fel aflêr - nodwyd yr ymateb.

2. **British Weights and Measures Association:** Cyfeiriodd clerc y dref at yr ohebiaeth a dderbyniwyd - nodwyd yr ohebiaeth.

3. **Gardd Goffa Dr Evan Pierce:** Boules - cyfeiriodd clerc y dref at yr e-bost a dderbyniwyd a nodwyd yr ohebiaeth.

4. **Save Our Paths Wales:** Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-bost a dderbyniwyd - nodwyd yr ohebiaeth.

## B. <u>Cyllid</u>

1. **Parc Sglefrio Dinbych.** Croesawodd y cadeirydd Simon Billington o CSDd a Mair Edwards o Grŵp Cynefin. Aeth y cyfarfod ymlaen i drafod gyda'r ddau gynrychiolydd y gwaith o gynnal a chadw'r parc sglefrio. Cyflwynodd Simon Billington ei hun ac yna amlinellodd, y gorau y gallai, hanes cytundeb yr SLA. Dywedodd Mair Edwards fod yr SLA heb ei ddiweddaru ers 2011 - roedd y parc sglefrio ym mherchnogaeth CSDd a bod archwiliadau rheolaidd yn bwysig ac mae cyfrifoldeb yr awdurdod lleol oedd gwneud hynny. Aeth Mair Edwards ymlaen i egluro sut y penderfynwyd ar y costau a'r ariannu. Mewn ateb i glerc y dref dywedodd Simon Billington fod yna werth am arian a bod y cytundeb am 25ain. Arweiniodd y cadeirydd yr aelodau drwy'r dadansoddiad costau oedd yn ymglymedig. Dywedodd y Cyng Gwyneth Kensler fod y codi sbwriel dyddiol ddim yn cymryd lle. Cadarnhaodd Simon Billington fod angen cyfeirio at unrhyw faterion a godwyd. Dywedodd y Cyng Bartley fod cwynion yn cael ei derbyn oddi wrth y cyhoedd ynglŷn â chyflwr blêr y parc sglefrio. Rhoddodd Simon Billington warantiad i fonitro'r sefyllfa. Cytunwyd i adolygu'r mater mewn chwe mis.

2. **Arwydd Clwb Bowlio Dinbych.** Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Steve Chalk. £90 oedd cost yr arwydd. Ni dderbyniwyd, hyd yn hyn, dystiolaeth o ganiatâd CSDd. Ni atebwyd y cyfan o'r wybodaeth a ofynnwyd amdano. Cytunwyd i ail yrru'r cais.

3. **Cyfrifon:** Nid oedd unrhyw gyfrifon i'w talu

2. **Derbyniwyd a nodwyd Adroddiadau Ariannol cyfnod 1.4.15 - 31.07.15 a 31.8.15.**

3. **Nodwyd a derbyniwyd rhestr taliadau a wnaed gan glerc y dref yn ystod y cyfnod Gorffennaf 28ain 2015 - Medi 14eg 2015 (cofnod 65(2) yn cyfeirio)** - un ar bymtheg o daliadau gyda chyfanswm o £5,809.42.

5. **Cymorthdaliadau**: 1. Nodwyd yr e-bost yn diolch a dderbyniwyd oddi wrth Sioe Dinbych.

   2. Ystyriwyd yn fanwl y ceisiadau canlynol am gymorthdaliadau a gwnaed penderfyniadau ar bob un fel a ganlyn:

(1) Capel Mawr, Dinbych. (Datganodd y Cyng Raymond Bartley ddiddordeb personol). Gohiriwyd y cais i weld beth fyddai canlyniad ceisiadau eraill. Dywedodd clerc y dref fod cais wedi ei dderbyn oddi wrth yr ymgeisydd am ohiriad pellach.
(2) Deial a Theithio - Gohiriwyd penderfyniad i ddisgwyl am ffurflen gais cymorthdaliadau ac i gael gwybodaeth am weithgaredd Deial a Theithio yn Ninbych. Derbyniwyd y ffurflen gais ynghyd a dogfennau eraill. Tra roedd y dogfennau yn dangos ffigyrau ar gyfer yr holl ardal ni dderbyniwyd ffigyrau ar gyfer Dinbych fel y gofynnwyd amdano'n wreiddiol. Cytunwyd i ohirio'n bellach unrhyw benderfyniad tan gyfarfod mis Hydref er mwyn i'r wybodaeth gael ei dderbyn.
(3) Ruthin and Denbigh Gymnastics Club - Penderfynwyd gohirio penderfyniad i ddisgwyl derbyn ffurflen gais cymorthdaliadau - heb ei dderbyn. Cytunwyd i ohirio'n bellach.
(4) Shirley Smith's Black Belt Academy. Gyrrwyd ffurflen gais - heb ei dderbyn hyd yn hyn.
(5) Clwb Hoci Dinbych - £1,000(A.137)(rhif siec 005701)
(6) Ford Gron Dinbych - £350 (A.144)(rhif siec 005702)
(7) Clwb Pêl droed Dinbych - £1,500(A.137)(rhif siec 005703)

7. **Nodwyd derbyn £62,833 oddi wrth CSDd sef ail daliad archebiant.**

8. **Nodwyd derbyn £1,353.53 oddi wrth HMRC sef ad-daliad TAW.**

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.54 o'r gloch.

Arwyddwyd:.......................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:...........................................